**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
**Telerau ac Amodau**

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi braslun o delerau ac amodau rhwng y Brifysgol ac Ymgeiswyr ar gyfer ein rhaglenni astudiaeth. Ffurfir contract sy'n rhwymo rhwng y Brifysgol a'r Ymgeisydd pan fydd yr Ymgeisydd yn derbyn cynnig o le mewn prifysgol.

Y contract hwn yw sylfaen eich perthynas gyda'r Brifysgol. Mae'r wybodaeth isod yn darparu gwybodaeth bwysig y mae angen i chi ei darllen a'i deall cyn derbyn cynnig. Os oes gennych ymholiadau neu gwestiynau am y wybodaeth hon, cysylltwch â Lisa Bowen, Pennaeth Derbyniadau ar 029 2041 6014 neu e-bostiwch at LBowen@cardiffmet.ac.uk.

**Derbyniadau**

Bydd eich lle yn y Brifysgol yn amodol ar gyflawni'r broses gwneud cais ac ymrestru ar gychwyn eich rhaglen. Bydd eich lle yn amodol ar yr amodau a'r telerau a nodwyd yn eich llythyr cynnig, y wybodaeth a geir ym mhrosbectws a /neu gwefan berthnasol y Brifysgol a pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol (ar gael ar y wefan) y cyfeirir atyn nhw yn llawlyfr y myfyrwyr a siarter y myfyrwyr, a gaiff ei anfon atoch chi cyn i chi gychwyn ar eich rhaglen.

Cewch weld y dogfennau hyn a'r wybodaeth yn ystod y broes derbyn ac ymrestru.

Gallwch ddarllen Polisi Derbyn hefyd drwy glicio yma.

Sicrhewch eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau hyn a'u gofynion perthnasol, oherwydd bydd methu â chydymffurfio â rheoliadau arwain at y Brifysgol yn terfynu'ch cynnig neu'ch cofrestriad.

**Rhaglenni Newydd – yn Amodol ar Ddilysiad**

Rhaid i bob rhaglen yn y Brifysgol gael eu dilysu, a'r diben ydy sicrhau bod y darpar raglenni yn cyd-fynd â Chenhadaeth y Brifysgol a bod ei chynnwys yn adlewyrchu lefelau a safonau academaidd priodol.

Os bydd y rhaglen yr ydych wedi gwneud cais amdani yn Amodol ar Ddilysiad, a'ch bod wedi cael cynnig lle, yna cewch wybod am ddyddiad y dilysu gyda'ch cynnig. Os gwneir newidiadau i'r rhaglen, caiff hyn ei gyfleu i chi a diweddarir y wybodaeth am y rhaglen ar ein gwefan.

Os nad ydych yn hapus gyda'r newidiadau a wnaed ac yn dymuno tynnu nôl, bydd y Brifysgol yn eich cynorthwyo i ddod o hyd i raglen arall.

**Cynigion**

Bydd unrhyw gynnig o le ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn amodol arnoch yn cyflawni amodau a fydd yn hysbys i chi. Gallai'r amodau fod yn gynnwys gofynion i gael neu i ddarparu tystiolaeth o gymwysterau arbennig a bodloni'r holl ofynion cyfreithiol a gofynion eraill i astudio ar eich dewis raglen. Gallai'r amodau gynnwys gwiriadau iechyd, gwrio cofnodion troseddol a darparu manylion mewnfudo.

Gallai'r cynnig fod yn amodol neu'n ddi-amod a bydd yn cael ei roi yn eich llythyr cynnig. Byddwch hefyd yn derbyn manyleb(au) rhaglen ar gyfer y cyrsiau yr ydych wedi cael cynnig lle arnyn nhw. Gwneir cynigion drwy UCAS ar gyfer ymgeiswyr israddedig llawn amser, UTT ar gyfer ymgeiswyr hyfforddiant athrawon TAR a thrwy Hunan Wasanaeth a/neu lythyr ar gyfer ymgeiswyr rhan amser ôl- raddedig ac ymchwil.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ymateb i unrhyw gynigion a roddir. Ar gyfer ymgeiswyr israddedig bydd yr opsiwn yn gadarn (dewis cyntaf), yswiriant (ail ddewis) neu wrthod. Ar gyfer ymgeiswyr TAR bydd yr

opsiwn yn gadarn neu wrthod ac ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill sy'n gwneud cais drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, yr opsiynau ydy naill ai derbyn neu wrthod.

**Ateb Cynigion**

O ateb Cadarn i'r cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd eich bod yn derbyn ein Hamodau a'n Telerau, felly sicrhewch eich bod yn eu darllen a'u deall.

O ateb Cadarn, rydych hefyd yn cytuno y gall y Brifysgol ddal a defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion derbyn myfyrwyr, mynediad a'ch cofnod myfyrwyr. Cyfeiriwch at yr adran ar Wybodaeth Bersonol a Diogelwch sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y defnydd o wybodaeth bersonol a ddarparwyd.

Mae gan ymgeiswyr gyfnod o 14 diwrnod ar ôl ateb i newid eu meddwl, sy'n golygu eich bod yn gallu penderfynu gwrthod eich cynnig ar ôl i chi ei dderbyn yn gadarnhaol. Mae gan Metropolitan Caerdydd **Ffurflen Ganslo** y gellir ei llenwi drwy glicio yma. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Amodau a'r Telerau, cysylltwch â'r adran Dderbyniadau ar askadmissions@cardiffmet.ac.uk.

Bydd gan ymgeiswyr israddedig sy'n gwneud Prifysgol Metropolitan Caerdydd eu dewis Yswiriant, ac sydd wedyn yn newid eu meddwl neu'n newid i Gadarn, gyfnod o 14 diwrnod o ddyddiad y newid i newid eu meddwl. Enghraifft o'r senario hwn fyddai petai'r dewis Cadarn yn aflwyddiannus ar ôl derbyn canlyniadau'r arholiadau pan fydd y dewis Yswiriant yn dal yn weithredol.

**Cwrdd ag Amodau Cynnig**

Os cewch gynnig sy'n amodol ar gyflawni cymwysterau neu ofynion eraill, bydd angen i chi gwrdd â'r amodau hynny er mwyn derbyn cynnig di-amod.  Os na fyddwch yn cwrdd â thelerau'ch cynnig, efallai gallwn ni gynnig dewis o raglen arall i chi, y gallech chi ei dderbyn neu ei wrthod. Os byddwch yn dewis derbyn y newid yn y penderfyniad cadarnhau bydd gennych 14 diwrnod, ar ôl i chi ateb Cadarn, i newid eich meddwl a chael eich rhyddhau i fynd i'r Clirio er mwyn cael eich ystyried yn rhywle arall neu dynnu'n ôl.

Mae hawl gan ymgeiswyr sy'n cwrdd â thelerau eu cynnig neu'n rhagori arno i gael eu hystyried am raglen amgen neu sefydliad drwy'r broses Addasu.  Os cewch gynnig lle a derbyn hyn drwy'r broses Addasu, bydd gennych 14 diwrnod i newid eich meddwl ar ôl iddo gael ei brosesu. Am wybodaeth ar y broses Addasu ewch i www.ucas.com/adjustment.

Rydyn ni'n cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl, neu i ohirio'ch cais tan garfan fynediad y flwyddyn nesaf, os na chyflawnoch amodau'ch cynnig cyn Awst 31 cyn cychwyn y flwyddyn academaidd. Oherwydd bod niferoedd wedi'u cyfyngu, mae angen cyflawni amodau rhaglenni a ariennir gan y GIG 5 wythnos cyn cychwyn y flwyddyn academaidd a hysbysir ymgeiswyr am yr union ddyddiad yn eu llythyron cynnig.

Sylwer, fydd dim rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni ôl raddedig, gan gynnwys ymchwilio, ar wahân i raglenni a ariennir gan y GIG, sydd â gwahanol ddyddiadau cychwyn, gadw at y dedlein hwn.  Ar gyfer y rhaglenni hyn, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r amodau bythefnos cyn cychwyn y rhaglen.

**Newidiadau i Gynnig**

Ar ôl cynnig lle, ni fydd y Brifysgol yn gwneud newidiadau heblaw bod ffactorau allanol yn galw am hynny, er enghraifft, os cyflwynir gofyniad diwydiannol. Os bydd angen newid cynnig, ac mae hynny'n annhebygol, cysylltir â'r ymgeiswyr i egluro'r sefyllfa a chytuno ar y newidiadau.

**Y System Glirio a Chynigion Hwyr**

Mae ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle drwy'r System Glirio eisoes wedi derbyn eu canlyniadau felly caiff yr holl gynigion sy'n cael eu prosesu yn rhai Cadarn Di-Amod. Ar ôl i benderfyniad y system glirio gael ei brosesu bydd gan ymgeiswyr 14 diwrnod i newid eu meddwl a naill ai gael eu rhyddhau i'r system Glirio neu gael eu tynnu nôl.

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn hwyr i raglen h.y. o fis Medi ymlaen, efallai na fydd y cyfnod canslo cytundebol 14 diwrnod yn berthnasol wrth wneud cais. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol bolisi lle bydd gan fyfyrwyr y Brifysgol, unwaith y byddan nhw wedi ymrestru,14 diwrnod i newid eu meddwl a chanslo'u lle heb fynd i unrhyw gosb ariannol.

**Newidiadau i'r Rhaglen**

**Ar y Cam Gwneud Cais**:

Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ymgeiswyr ar y rhaglenni a gynigir yn gywir ac mor gyfredol â phosibl. Fodd bynnag, caiff rhaglenni astudiaeth eu diwygio'n barhaus a gallai fod rhai newidiadau rhwng adeg eu cyhoeddi a'r adeg y mae'r myfyriwr yn dechrau astudio ar y rhaglen. Mae cynnal rhaglenni yn y Brifysgol hefyd yn amodol ar niferoedd, sef bod angen cael nifer arbennig o fyfyrwyr i ymgymryd â rhaglen cyn iddi fod yn ymarferol ei chynnal ac i sicrhau na fydd profiad myfyrwyr yn cael ei gyfaddawdu. Os yw'n berthnasol, nodir y lleiafswm sydd ei angen ar dudalennau gwybodaeth ar-lein y cyrsiau.

Os byddwn yn ystyried bod angen rhesymol i weithredu camau fel hyn, rydyn ni'n cadw'r hawl i amrywio'r gofynion mynediad ar ddechrau pob cylch derbyn, amrywio cynnwys neu ddulliau cyflenwi rhaglenni, i derfynu rhaglenni ac i gyfuno rhaglenni.

Hysbysir ymgeiswyr cyn gynted â phosibl os penderfynir newid neu derfynu rhaglen, er mwyn i ymgeiswyr gael cyfle i ystyried rhaglen arall yn y Brifysgol hon neu mewn man arall. Os penderfynir terfynu rhaglen ar ôl i ymgeisydd gael cynnig lle, bydd yr Uned Dderbyn yn gwneud pob ymdrech i gynnig dewisiadau eraill a rhoi cymorth i ddod o hyd i raglen amgen addas.

**O'r Cam Cael Cynnig a Thu Hwnt**:

Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i gynnig rhaglenni astudiaeth a chyfleoedd ymchwil a gwasanaethau a chyfleusterau eraill yn y modd a ddisgrifir ar y wefan hon. Bydd yn darparu'r hyfforddiant a'r cymorth i'r myfyrwyr ynghyd â'r gwasanaethau a chyfleusterau eraill a ddisgrifir gyda gofal a sgil rhesymol.

Fod bynnag, bydd hawl gan y Brifysgol, os yw'n rhesymol ystyried ei bod hi'n angenrheidiol (yn cynnwys er mwyn rheoli ei hadnoddau a dilyn ei pholisi o welliant parhaus yn briodol):

- i newid amserlen, lleoliad, nifer y dosbarthiadau a dull cyflenwi rhaglenni astudiaeth ar yr amod bod addasiadau fel hyn yn angenrheidiol.
- oherwydd natur alwedigaethol a diwydiannol ein rhaglenni, bod angen i ni wneud newidiadau i gynnwys a maes llafur y rhaglen astudiaeth (yn cynnwys modiwlau opsiynol lleoli) fel bod ein rhaglenni yn cwrdd ag anghenion y gweithle. Hefyd, oherwydd hyn, gallai modiwlau opsiynol gael eu tynnu nôl a chyflwyno eraill er mwyn cynnal eu natur alwedigaethol (h.y. ei gadw'n real)
- atal dros dro, neu derfynu rhaglenni astudiaeth (er enghraifft, oherwydd bod aelod allweddol o'r staff yn sâl neu'n gadael y Brifysgol). Am ragor o wybodaeth ar raglenni a ataliwyd dros dro neu a derfynwyd, darllenwch y Llawlyfr Academaidd.

- i wneud newidiadau i'w statudau, ei deddfiadau, rheoliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn rhesymol ystyried yn angenrheidiol (er enghraifft, yng ngoleuni newid yn y gyfraith neu yng ngofynion rheolyddion y Brifysgol). Daw newidiadau o'r fath os ydyn nhw'n rhai sylweddol i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol, ac os ydyn nhw'n sylfaenol i'r rhaglen ac fel arfer yn cael eu gweithredu adeg carfan nesaf y myfyrwyr.
- peidio â darparu rhaglenni astudiaeth neu i'w cyfuno gydag eraill os bydd y Brifysgol yn rhesymol ystyried bod hyn yn angenrheidiol (er enghraifft, oherwydd nad oes digon o fyfyrwyr wedi gwneud cais i ymuno â'r rhaglen i'w gwneud hi'n ymarferol i'w chynnig).

Os digwydd, ac mae hynny'n annhebygol, bod y Brifysgol yn terfynu neu'n peidio â darparu rhaglen astudiaeth neu ei newid yn sylweddol cyn iddi ddechrau:

- bydd y Brifysgol yn hysbysu unigolion perthnasol ar y cyfle cyntaf.
- bydd hawl gan unigolyn i dynnu ei gais neu ei chais yn ôl drwy ysgrifennu at y Brifysgol o fewn amser rhesymol o gael gwybod am y newid.
- bydd y Brifysgol yn ad-dalu ffioedd dysgu a'r blaendaliadau a dalwyd.

Bydd y Brifysgol yn darparu'r cymorth dysgu a gwasanaethau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol ond gall amrywio'r hyn y mae'n ei ddarparu o dro i dro (er enghraifft, gallai'r Brifysgol ystyried ei bod yn ddymunol newid y modd y mae'n darparu cymorth llyfrgell neu TG).

Ar ôl i ymgeisydd dderbyn cynnig am le yn y Brifysgol, bydd y berthynas rhwng yr ymgeisydd a'r Brifysgol yn datblygu'n un cytundebol ac mae'r ymgeisydd yn derbyn telerau ac amodau'r Brifysgol. O dderbyn cytundeb, dydy'r myfyriwr na'r Brifysgol ddim yn bwriadu gorfodi unrhyw amodau'r contract drwy'r Ddeddf Contractau 1999 (Hawliau'r Trydydd Parti) ar unrhyw berson heb fod yn barti iddo.

**Newidiadau tra'n Astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd**

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal Proses Adolygiad Cyfnodol, a'r pwrpas ydy gwerthuso cyflwr rhaglen yn feirniadol. Mae'n galluogi i newidiadau gael eu gwneud i raglen i'w chadw'n gyfredol a dilys yn ogystal â gwella ansawdd a sicrhau safonau academaidd. Mae'r adolygiad cyfnodol hefyd yn sicrhau datblygiadau cynlluniedig. Caiff myfyrwyr wybod am unrhyw newidiadau perthnasol fel eu bod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau a fyddai'n effeithio ar eu hastudiaethau. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Cyfnodol yn y **Llawlyfr Academaidd – Academic Handbook**.

**Cywirdeb y Wybodaeth**

Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarparwch yn wir a chywir. Mae'r cywirdeb hwn yn cynnwys cywirdeb y manylion personol gan fod camgymeriadau a wneir yn enwau myfyrwyr yn ystod y broses sefydlu ac ymrestru yn golygu camgymeriadau yn nhrawsgrifiadau'r radd.

Bydd ymgeiswyr sydd ddim yn dilyn gweithdrefnau perthnasol gwneud cais y Brifysgol, UCAS ac UTT neu sydd yn gwneud ceisiadau ffug neu dwyllodrus gan gynnwys peidio â datgelu gwybodaeth yn colli eu lle. Cyfeiriwch at bolisi Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar ddelio â cheisiadau sy'n cynnwys gwybodaeth ffug neu dwyllodrus; ceir y polisi hwn drwy glicio yma.

**Gofynion Iechyd**

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i sicrhau na fydd myfyrwyr yn gorfod wynebu risg amhriodol.  Felly, er mwyn derbyn lle a pharhau ag astudiaethau, mae rhai rhaglenni (er enghraifft gofal iechyd ategol, gwyddor iechyd, maethiad a dieteg dynol, podiatreg a therapi lleferydd a iaith) yn gofyn i'r ymgeisydd lenwi holiadur iechyd galwedigaethol a darparu prawf o imiwneiddiad yn erbyn rhai clefydau cyn ymrestru, yn ogystal a gwiriadau sgrinio iechyd ar ôl cyrraedd y campws.

Yn ychwanegol, ar gyfer rhai rhaglenni, mae gofyn i fyfyrwyr gymryd rhan mewn rhaglen brechu orfodol.  Cynhelir apwyntiadau gwirio a sgrinio Iechyd Galwedigethol er mwyn galluogo'r Brifysgol i wneud asesiad iechyd fel y gellir cynnig cymorth rhesymol i neilltuo'r unigolyn yn ei swydd.

Bydd amodau'ch cynnig a neu lythyr yn eich hysbysu pan fydd gofynion iechyd fel hyn yn berthnasol.

Ceir manylion llawn ar raglen **Asesu Iechyd Galwedigaethol** Met Caerdydd ar: www.cardiffmet.ac.uk/ohq.

**Datgelu Collfarnau Troseddol**

Mae gan Met Caerdydd ddyletswydd gofal i'w myfyrwyr i gael gwybod am unrhyw euogfarn heb ei disbyddu sydd wedi arwain at gyfnod prawf a/neu osod cyfyngiadau. Felly, gofynnir i ymgeiswyr am unrhyw wybodaeth am hyn ar ôl iddyn nhw gael cynnig lle.

Gofynnir i ymgeiswyr am gyrsiau lle mae myfyrwyr yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion agored i niwed ddatgelu yr holl gollfarnau troseddol hyd yn oed os byddan nhw wedi'u disbyddu ac ymgymryd â gwiriad y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu (DBS) a gwiriadau eraill cyn ac ar ôl ymrestru.

Am ragor o wybodaeth ewch i  www.cardiffmet.ac.uk/dbs .

**Mewnfudo**

Mae angen i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis astudio yn y DU gael cliriad mewnfudo. Am ragor o wybodaeth ewch i'r tudalennau rhyngwladol ar: www.cardiffmet.ac.uk/international

**Llety**

Caiff neilltuo lleoedd mewn Neuadd ei gydlynu gan y Gwasanaeth Llety, er y rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gan fod y galw mawr am lety yn golygu bod llety preifat yn cael ei ddefnyddio i letya llawer o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf. Mae'r dyraniad yn seiliedig ar bellter a dyddiad y cais ar-lein. Am ragor o wybodaeth ar y contract llety, ewch i: www.cardiffmet.ac.uk/accommodation.

**Cymorth ar gyfer Myfyrwyr Anabl**

Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth eang o gymorth i fyfyrwyr er mwyn darparu help gyda iechyd, llesiant, ffordd o fyw a chyngor ar ddarpar yrfa, sy'n cynnwys cymorth a chyngor ar gyfer myfyrwyr anabl.

Mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr anabl ac anogir myfyrwyr yn gryf i ddatgelu anabledd neu anghenion cymorth eraill ar eu cais, fel y gall y Brifysgol geisio cynorthwyo unrhyw anghenion drwy gydol eu cyfnod astudiaeth.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr/myfyrwyr yn trafod eu hanghenion gyda'r Gwasanaeth Anabledd a darparu gwybodaeth yn ôl y gofyn fel y gellir addasu'n briodol. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.cardiffmet.ac.uk/disability

**Ymrestru**

Mae gofyn i fyfyrwyr Metropolitan Caerdydd ymrestru ar-lein unwaith bydd eu lle wedi cael ei gadarnhau (yn gadarn ddi-amod) ac mae'n bwysig bod y telerau ac amodau ymrestru, y gellir eu darllen yma ac yna eu deall. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i gytuno'n ffurfiol â thelerau ac amodau, polisïau a gweithdrefnau y Brifysgol. Mae'n orfodol eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau hyn cyn i chi ymrestru.

Mae gofyn i'r holl fyfyrwyr gytuno â dull/sail talu am ffioedd. Bydd angen i fyfyrwyr a noddir gan gyflogwr neu'n cael eu hariannu gan fenthyciad gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ddarparu tystiolaeth foddhaol o'r trefniadau hyn a'r gallu i gynnal eu hunain yn ystod cyfnod eu hastudiaeth. Os nad oes tystiolaeth ar gael ar adeg yr ymrestru, rhaid i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth o'r math o fewn 2 wythnos i adeg yr ymrestru; bydd methu â gwneud hyn yn golygu y bydd rhaid i fyfyrwyr efallai dalu'r ffioedd eu hunain. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ffioedd drwy glicio yma.

Rydyn ni angen tystiolaeth boddhaol o'ch cymwysterau gan gynnwys TGAU Saesneg Iaith a Mathemateg (lle bo'n berthnasol). Ni chewch ymrestru heblaw eich bod yn darparu prawf o'ch cymwysterau drwy dransgript gwreiddiol/ tystysgrif wreiddiol neu gopi clir, darllenadwy wedi'i ddilysu gan y sefydliad dyroddi. Gallwch gyfeirio at ein polisi ar wirio cymwysterau drwy glicio yma.

Ni fydd angen i ymgeiswyr israddedig y derbyniwyd canlyniadau cymhwyster Lefel 3 gan UCAS ddarparu tystysgrifau. Byddwn yn parhau i fod angen dilysiad o ganlyniadau TGAU/cyfwerth.

Os bydd angen mynediad i raglen yn ddibynnol ar ddatgeliad Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu manylach, ystyrir bod unrhyw gofrestru yn rhywbeth dros dro nes derbyn a chlirio datgeliad derbyniol. Gellir dirymu cofrestriad yn achos datgeliad annerbyniol.

**Gwybodaeth Bersonol a Diogelu Data**

Defnyddir y wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi ar eich cais i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer prosesu'ch cais a bydd yn ffurfio rhan o'ch cofnod myfyriwr. Gellir ei defnyddio hefyd i

- hysbysu Gwasanaethau Myfyrwyr os ydych wedi nodi anabledd fel y gellir asesu a oes angen addasiadau rhesymol. Hefyd, darperir gwybodaeth ar a ydych mewn gofal neu wedi bod mewn gofal, neu a ydych yn ofalwr i'r Gwasanaethau Myfyrwyr fel y gellir darparu cymorth.
- Darparu adnoddau megis TG a Gwasanaethau Llyfrgell
- Darparu gwybodaeth i ddarparwyr Lleoliadau, os yn rhan o'r cwrs, er mwyn hwyluso'ch astudiaethau.
- Gweinyddu astudiaethau gan gynnwys gwybodaeth asesu a phenderfynu ar ddyfarniad.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer Cyngor Gweithlu Addysg ar gyfer y rhai sy'n astudio cyrsiau hyfforddiant athrawon.
- Gweinyddu cyllid megis talu ffioedd a darparu gwybodaeth ar gyfer y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- Ymgymryd â gweinyddu Prifysgolion a chynlluniau Bwrsarïau.
- Darparu ystadegau ar gyfer ar gyfer asiantaethau'r llywodraeth yn cynnwys Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Gweithlu Addysg er mwyn cydymffurfio â goblygiadau statudol.
- Darparu gwybodaeth i gydymffurfio â'r System Mewnfudo yn Seiliedig ar Bwyntiau.

- Bydd cydymffurfio â goblygiadau cyfreithiol eraill hefyd yn golygu y gellir hefyd gyflenwi gwybodaeth i sefydliadau allanol yn cynnwys yr Heddlu, Y Swyddfa Gartref, Awdurdodau Lleol a'r Adran Waith a Phensiynau.
- Os ydych yn gyflogedig neu'n cael eich noddi yn ystod eich astudiaethau, darperir gwybodaeth am eich statws fel myfyriwr, o ran presenoldeb a pherfformiad.
- Galluogi'r Brifysgol i gasglu ystadegau ar gyfer ymchwil ar dueddiadau gwneud cais, monitro perfformiad a monitro cyfleoedd cyfartal.
- Cyfleu gwybodaeth am y broses o wneud cais, y cyrsiau, y Brifysgol a Chyn-Fyfyrwyr.
- Prosesu achosion cwynion, apeliadau a disgyblu myfyrwyr.
- Darparu gwybodaeth i bartneriaid breiniol er mwyn rheoli'r broses dderbyn ar gyfer y sefydliad hwnnw.

Darperir data personol arbennig i'r Brifysgol, drwy gydol eich proses gwneud cais, a chaiff gwybodaeth bellach yn ystod y broses ymrestru, ei gaffael. Cesglir data personol a'i brosesu drwy gydol eich amser yn y Brifysgol tra'n astudio a chaiff ei drin yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Efallai byddai rhaid cadw gwybodaeth bersonol ymgeiswyr aflwyddiannus os oes angen a chaiff ei waredu yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gadw cofnodion.

Gallai fod gofyn am wybodaeth ar iechyd ymgeisydd cyn cychwyn rhai cyrsiau arbennig er mwyn cwrdd â gofynion proffesiynol. Hefyd, efallai bydd gofyn am wybodaeth ar iechyd myfyrwyr pan ymgymerir â gwaith maes a lleoliadau at ddibenion iechyd a diogelwch ac yswiriant. Mae gofyn i ymgeiswyr hefyd ddatgelu a chael gwirio cofnodion troseddol i gwrdd â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol.

Drwy fynd i mewn i gytundeb â ni, rydych chi'n rhoi'r hawl i ni ddal a phrosesu'ch data personol gan gynnwys ychydig o ddata personol sensitif yn unol ag Erthygl 6.1 (b) o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Data personol yn unol ag egwyddorion Diogelu Data bob amser fel yr amlygir o fewn y GDPR a'n Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data. Am wybodaeth am ein Polisi ar Ddiogelu data a Pholisi Bod yn Agored ewch i: www.cardiffmet.ac.uk/DataProtection neu cysylltwch â DataProtection@cardiffmet.ac.uk.

**Termau Pwysig ac Annisgwyl**

Er ein bod yn ystyried fod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn bwysig, o fewn y telerau ac amodau, i fod yn bwysig, hoffem dynnu eich sylw at y wybodaeth wirioneddol bwysig dan y canlynol:

- Derbyniadau sy'n delio â'ch cais a'ch derbyniad i'r Brifysgol
- Gofynion mynediad i gwrs penodol a geir ar dudalennau'r cwrs
- Collfarnau troseddol
- Gofynion Iechyd
- Hawliau i ganslo
- Newidiadau i gynigion
- Rhaglenni newydd yn amodol ar iddyn nhw gael eu dilysu

- Newidiadau i raglenni sy'n amlygu pa newidiadau a allai ddigwydd a'r rhesymau pam bod angen i Met Caerdydd wneud hyn.
- Ffioedd, newidiadau i ffioedd, costau ychwanegol, canlyniadau peidio â thalu (Polisi Dyledwyr) a'r cyfanswm i'w dalu os ydych yn penderfynwch adael.
- Cwynion
- Diogelu Data yn ymwneud â'r modd rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth
- Rheoliadau myfyrwyr a geir yn y
- Llawlyfr Academaidd
- Mae angen i chi fod yn ymwybodol o reoliadau myfyrwyr tra'n astudio ym Met Caerdydd ac y gallai'r rhain gael eu diwygio o dro i dro er mwyn parhau i fod yn berthnasol.

**Sefydliadau Partner**

Mae Met Caerdydd yn cydweithio gyda nifer o Sefydliadau Partner sy'n cynnig cyrsiau a ddilyswyd gan Met Caerdydd. Bydd gan y sefydliadau hyn hefyd eu telerau a'u hamodau y bydd angen eu darllen a'u deall ynghyd â thelerau ac amodau Met Caerdydd. Am ragor o wybodaeth am ein partneriaid ewch i Dudalennau Partneriaeth - Partnership Pages) Prifysgol Met Caerdydd.

**Canslo**

Ar ôl ateb i gynigion, mae gan ymgeiswyr 14 diwrnod lle gallan nhw newid eu meddwl a chanslo'u lle gyda'r Brifysgol. Darperir rhybydd ysgrifenedig o'r cyfnod 14 diwrnod hwn ar gyfer pob ymgeisydd. Ar ôl y cyfnod hwn, os bydd ymgeiswyr sy'n dymuno canslo'u lle, bydd angen iddyn nhw lenwi a dychwelyd y **Ffurflen Ganlso - Cancellation Form**.

Ar ôl ymrestru yn y Brifysgol, mae gan fyfyrwyr hefyd 14 diwrnod i newid eu meddwl a chanslo'u lle. Os bydd ymgeiswyr yn dewis tynnu nôl neu ganslo'u lle ar ôl y cyfnod o 14 diwrnod, bydd y Brifysgol yn caniatáu hyn heb fynd i unrhyw gosb ariannol. Fodd bynnag, disgwylir bod gan ymgeiswyr reswm dilys dros dynnu nôl ac wedi gwneud ymchwil i ganlyniadau'r penderfyniad hwn.

Cewch wybodaeth am y cosbau ariannol a osodir am dynnu nôl ar ôl ymrestru yn yr adran ar Ffioedd.

**Ffioedd**

Codir ffioedd bob blwyddyn ar gyfer holl raglenni llawn amser a rhan amser israddedig ac ôl-raddedig yn cynnwys Ymchwil. Gellir cael gwybodaeth lawn ar gostau ar ein tudalennau cyllid. Gall newidiadau ddigwydd i gost astudio sy'n ystyried chwyddiant a grymoedd y farchnad; ceir gwybodaeth bellach ar gynllun ffioedd Met Caerdydd cynllun ffioedd. Hefyd am ragor o wybodaeth ac i ateb unrhyw gwestiwn am newid i ffioedd ewch i Ddatganiad Ffioedd Met Caerdydd (Cardiff Met's Fee Statement).

Mae gofyn i bob myfyriwr gytuno ar ddulliau talu o ran eu hyfforddiant a'u ffioedd llety erbyn cychwyn eu rhaglen. Gall myfyrwyr fynd i gostau ychwanegol perthnasol i'w rhaglen; am ragor o wybodaeth cyfeiriwch a y wybodaeth am Gostau Ychwanegol). Gellir cael gwybodaeth am ffioedd a rheoliadau ar ein gwefan (Ffioedd a Chyllid) yn ogystal ag yn ein (Llawlyfr Myfyrwyr).

Dylech dalu sylw arbennig i'r ffaith, os byddwch yn tynnu nôl ar ôl pythefnos cyntaf o gychwyn eich rhaglen, yna bydd eich rhwymedigaeth i dalu ffioedd yn dibynnu ar y cyfnod astudiaeth, fel y gwelir isod:

- Tynnu nôl yn ystod y tymor cyntaf (Hydref) % o'r ffi taladwy = 40%
- Tynnu nôl yn ystod yr ail dymor (Gwanwyn) % o'r ffi taladwy = 70%
- Tynnu nôl yn ystod y trydydd tymor (Haf) % o'r ffi taladwy = 100%

Os ydych yn talu'ch ffioedd eich hunan neu unrhyw gyfraniad tuag at eich ffioedd, mae trefniadau yn bodoli i dalu mewn rhandaliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Os mai noddwr neu asiantaeth arall sydd yn mynd i dalu'ch ffioedd, rhaid darparu prawf o hyn ar adeg ymrestru drwy lwytho cadarnhad o hyn i fyny yn eich llythyr ariannu.

Os byddwch yn bwriadu derbyn cymorth gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company,) dylech fod wedi cwblhau cais erbyn Mai o ddewis, neu cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn. Rhaid i chi fod yn ymwybodol petai eich dewis raglen neu'ch blwyddyn mynediad newid, ar ôl i chi gyflwyno'ch cais am fenthyciad i fyfyrwyr, dylech roi gwybod i'r Cwmni Benthyciad i Fyfyrwyr am y newid cyn gynted ag y bo'n gyfleus i chi.

Petaech yn cael anhawster i gyflawni'ch goblygiadau ariannol neu angen cyngor ar ddelio â dyled dylech gysylltu â Chyllid Myfyrwyr a'r Gwasanaeth Cynghori Llesiant (Student Finance and Welfare Advisory Service) i weld a allwch dderbyn help ariannol.  Mae gan y Brifysgol bolisi ar Ddyledwyr ei weld drwy glicio yma.

**Cwynion**

Mae gweithdrefn cwynion yn bodoli ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth sydd wedi'i ddarparu ar eu cyfer. Yn y lle cyntaf, mae croeso i chi gysylltu â'r adran berthnasol o ble mae'ch cwyn yn tarddu.  Petai'r canlyniad ddim yr un fyddech chi'n ei ddisgwyl, mae gan y Brifysgol weithdrefn gwynion ffurfiol. Am ragor o wybodaeth ar weithdrefn gwynion ffurfiol, cliciwch yma.